

Gwrandawriad cyn penodi - Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Mawrth 2023

1. Cyflwyniad

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

1. Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 1 Ebrill 2019. Mae'n darparu ac yn comisiynu amrywiaeth lawn o wasanaethau ysbyty a gwasanaethau yn y gymuned i bobl Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Mae'r Bwrdd Iechyd boblogaeth yn gwasanaethu ardal sydd â phoblogaeth sy'n heneiddio fwyfwy, lefelau uchel o amddifadedd ac amrywiaeth amlwg yng nghanlyniadau iechyd ei phoblogaeth leol.

2. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg hefyd yn gyfrifol am gynnal y sefydliadau a ganlyn ar ran Llywodraeth Cymru a GIG Cymru:

- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
- Y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys
- Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru



2. Y broses o gynnal gwrandawriad cyn penodi

Y broses

3. Cytunodd Gweinidogion Cymru a Senedd Cymru i gyflwyno gwaith craffu cyn penodi gan bwyllgorau'r Senedd ar gyfer rhai penodiadau cyhoeddus penodol sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd neu benodiadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar y cyhoedd. Y nod yw gwella ymhellach y gwaith o graffu ar y broses o wneud penodiadau cyhoeddus yn ogystal â thryloywder y broses honno. Yn gyffredinol, mae gwaith craffu cyn penodi yn digwydd ar ffurf gwrandawriad cyhoeddus cyn penodi, gyda'r ymgeisydd a ffefrir. Ar gyfer penodiadau i'r rolau hyn y cytunwyd arnynt, y pwyllgor perthnasol sy'n penderfynu a yw'n dymuno cynnal gwrandawriad cyn penodi ai peidio.

Gwrandawriad cyn penodi

4. Ar 2 Mawrth 2023, cynhaliodd y Pwyllgor wrandawriad cyn penodi gyda Jonathan Morgan, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer swydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Pwyllgor.

5. I lywio'r gwrandawriad, rhoddodd Llywodraeth Cymru bapur briffio i ni ar y broses ("[papur briffio Llywodraeth Cymru](#)"), [ffurflen gais CV a datganiad ategol](#) Jonathan Morgan ynghyd â chopi o'r [pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr](#). Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i'r ymgeisydd a ffefrir lenwi [holiadur cyn y gwrandawriad](#).

3. Y broses recriwtio

6. Yn ystod haf 2021, hysbysebodd Llywodraeth Cymru swydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Yn y pen draw, ni lwyddodd yr ymgyrch recriwtio i ddenu ymgeiswyr addas, felly penderfynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog) benodi Emrys Elais yn Gadeirydd dros dro am gyfnod o 18 mis o 1 Hydref 2021 ymlaen.

7. Cynhaliodd y Pwyllgor wrandawriad ar ôl penodi gyda'r Cadeirydd dros dro ym mis Tachwedd 2021.¹ Yn dilyn y gwrandawriad, fe wnaethom ysgrifennu at y Gweinidog² gan fynegi siom y bu'n rhaid penodi rhywun dros dro a chan godi

¹ [Cofnod y Trafodion](#), 4 Tachwedd 2021

² [Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y broses penodiadau cyhoeddus](#), 22 Tachwedd 2021

nifer o bwyntiau yn ymwneud â'r broses penodiadau cyhoeddus, gan gynnwys sut y byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod swyddi tebyg yn denu amrywiaeth o ymgeiswyr o ansawdd uchel yn y dyfodol.

8. Ar 29 Medi 2022, ail-hysbysebodd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru swydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

9. Anfonodd Llywodraeth Cymru fanylion am y penodiad drwy restrau rhanddeiliaid a gedwir gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus a chyhoeddwyd y swydd wag ar wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gwefan Swyddfa Cabinet y DU. Hyrwyddwyd y swydd wag ar y sianeli cyfryngau cymdeithasol a ganlyn a'i hysbysebu ar y cyfryngau a restrir isod:

- Safle Swyddi
- Golwg 360
- Fish 4
- The Guardian
- Diversity Jobsite
- Evenbreak
- Health Jobs UK

10. Y dyddiad cau oedd 24 Hydref 2022 a daeth saith cais i law. Mae data amrywiaeth sy'n ymwneud â'r ymgeiswyr i'w gweld ym mhapur briffio Llywodraeth Cymru.

11. Dewiswyd tri ymgeisydd i'w cyfweld, ond tynnodd un ohonynt ei gais yn ôl cyn i'r cyfweliadau gael eu cynnal.

12. Gwahoddwyd ymgeiswyr i sesiwn i randdeiliaid ar 29 Tachwedd 2022 a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r bwrdd iechyd, eu partneriaid a'u rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd iddynt roi cyflwyniad 15 munud ar y modd roedd pandemg-19 wedi tanlinellu effaith anghydraddoldebau iechyd mewn rhai cymunedau yng Nghwm Taf Morgannwg a sut y byddent, fel Cadeirydd, yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd wrth ddatblygu strategaethau a darparu gwasanaethau.

13. Gwahoddwyd yr ymgeiswyr hefyd i gyfweliad ffurfiol â'r Panel Asesu Cynghorol ar 30 Tachwedd 2022. Roedd y Panel o'r farn bod un ymgeisydd y gellir

ei benodi. Cytunodd y Gweinidog ag argymhellion y Panel a dewiswyd Jonathan Morgan fel yr ymgeisydd a ffefrir.

Manyleb y swydd a'r person

14. Amlinellodd Llywodraeth Cymru rôl y cadeirydd yn y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr. Roedd hyn yn cynnwys hysbysiad y gallai penodiad i rôl y cadeirydd fod yn amodol ar wrandawriad cyn penodi, yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor.

15. Bydd y Cadeirydd yn atebol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am berfformiad yr awdurdod a'i lywodraethu effeithiol, am gynnal gwerthoedd y GIG, ac am ennyn hyder y cyhoedd a phartneriaid ledled Cymru. Mae cyfrifoldebau manwl y Cadeirydd i'w gweld yn y [pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr](#).

4. Yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru

Cefndir

16. Yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru yw Jonathan Morgan, sef Cadeirydd Anweithredol presennol Hendre a Chadeirydd Cymdeithas Tai Hafod. Mae'n aelod annibynnol o Fwrdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru; yn Aelod Cyswllt o Practice Solutions Ltd sy'n arbenigo mewn trawsnewid iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a chynllunio strategol, ac yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cynghori ynghylch risgiau, rheolaethau ariannol, a materion llywodraethu.

17. Dyma a nododd yn yr holiadur cyn penodi:

"I am passionate about our public services, the innovation, creativity in delivery, and for our staff who across our health and care system demonstrate the highest standards of professionalism, compassion, and care. The region of Cwm Taf Morgannwg (CTM) is diverse and with that comes a challenge to providing services designed to meet local needs, where we see the continued impact of the Covid-19 pandemic, an ageing population and health inequalities. I have spent a lot of time working with health, social care, housing and third sector partners in CTM and wanted to make a difference in leading the health board as it addresses the significant challenges and works through the opportunities to make a positive impact on peoples' lives.

I appreciate how big the role is and I would welcome the opportunity to work with the people of CTM in securing the delivery of care that meets their needs."

Ein barn ni

- 18.** Yn unol â'r canllawiau ar wrandawiadau cyn penodi y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd, ein rôl ni yw nodi ein barn ar addasrwydd yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.
- 19.** Yn ystod y gwrandawriad cyn penodi, cawsom drafodaeth eang â Jonathan Morgan, yr ymgeisydd a ffefrir. Roedd hyn yn cwmpasu ei brofiad o weithio mewn sefydliadau eraill, gan gynnwys rolau yn y sectorau gwirfoddol, prifysgol a chyhoeddus. Cadarnhaodd Mr Morgan - pe bai'n cael ei benodi - y byddai'n gadael y rolau y mae wedi'i benodi iddynt ar hyn o bryd a allai arwain at wrthdaro buddiannau, neu y gellir ei ddehongli fel gwrthdaro buddiannau.
- 20.** Buom yn trafod pwysigrwydd perthnasoedd cadarn, agored a thryloyw rhwng yr aelodau annibynnol a'r tîm gweithredol, a hefyd â byrddau iechyd ac awdurdodau lleol cyfagos. Buom yn siarad am y gwelliannau a oedd eisoes wedi digwydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf o ran llywodraethiant a'r angen nid yn unig i adeiladu ar y rhain, ond hefyd i'w cyfathrebu i'r cyhoedd yn fwy eang er mwyn ennyn hyder yn y gwasanaethau a ddarperir.
- 21.** Buom yn siarad am faterion staffio, gan gynnwys anawsterau yn ymwneud â recriwtio a chadw, a chefnogi morâl staff. Yn ôl Mr Morgan, ei fwriad oedd bod yn eiriolwr gweladwy a lleisiol i staff, fyddai nid yn unig yn gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud ond yn sicrhau fod hynny'n helpu i lywio ystyriaethau'r bwrdd.
- 22.** Gan gydnabod y cymunedau amrywiol a gynrychiolir yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf - a'r lefelau uchel o amddifadedd ac anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli yno - cafodd yr ymgeisydd ei holi ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth. Dywedodd Mr Morgan ei bod yn bwysig bod sefydliadau yn adlewyrchu amrywiaeth eu cymunedau a'i fod o'r farn y gellid gwneud mwy yn y maes hwn. Yn ôl Mr Morgan, mae'n rhaid i fyrddau iechyd ddangos eu bod yn agored, yn gyfartal a bod cyfle cyfartal wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad. At hynny, dylent wneud mwy i adlewyrchu amrywiaeth y sefydliad, fel bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yng ngwaith y bwrdd iechyd ac yn narpariaeth ei wasanaethau. Edrychwn ymlaen at weld Mr Morgan yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd i roi hyn ar waith.

Casgliad 1. Ar sail ei berfformiad a'i ymatebion i gwestiynau yn y gwrandawriad cyn penodi, ni wyddom am unrhyw reswm pam na ddylai Jonathan Morgan, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, gael ei benodi i swydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

23. Os caiff Jonathan Morgan ei benodi, dymunwn bob llwyddiant iddo yn y dyfodol ac edrychwn ymlaen at graffu'n adeiladol ar ei waith fel Cadeirydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn ystod cyfnod y Senedd hon.